



Heriau a Blaenoriaethau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Negeseuon Allweddol

- Unwaith y bydd y pwysau presennol sy'n gysylltiedig â'r gaeaf a'r pandemig yn cilio, bydd y system iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu **amrywiaeth o heriau systemig a heriau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu**, yng nghyd-destun anghenion iechyd heriol y boblogaeth. Mae llawer o'r rhain wedi bod yn broblem ers degawd.
- Mewn cyfweiliadau ac ymchwil ddesg, nodwyd **deg blaenoriaeth allweddol ar gyfer sector iechyd a gofal cymdeithasol Cymru**, yn amrywio o'r angen i ail-gydbwysu'r cymhellion er mwyn ysgogi gwelliannau yn y system; i'r angen i wella'r broses o gasglu a dadansoddi data sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu.
- Mewn trafodaethau ag uwch-ffigyrau o sefydliadau gofal iechyd, tynnwyd sylw at y **tri maes canlynol a fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i sector iechyd a gofal cymdeithasol Cymru**:
 - Cefnogi arweinyddiaeth a sefydlu prosesau rheoli ar gyfer newid trawsnewidiol
 - Recriwtio, hyfforddi, cefnogi a datblygu'r gweithlu cywir
 - Cynnal hyblygrwydd prosesau penderfynu a ddatblygwyd yn ystod y pandemig

Cyflwyniad

Mae'r heriau sy'n wynebu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gymhleth ac yn amlochrog. Cynhaliodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, mewn partneriaeth â Kaleidoscope Health and Care, raglen i adolygu'r materion a phennu blaenoriaethau. Roedd y rhaglen yn cynnwys adolygiad o ddogfennau polisi allweddol a chyfweiliadau ag arweinwyr y sector er mwyn creu darlun eang o'r heriau mawr sy'n effeithio ar Iechyd a Gofal

Cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd. Cafodd uwch-ffigyrau o sefydliadau allweddol o fewn system iechyd a gofal Cymru eu cynnull mewn 'uwchgynhadledd i arweinwyr' er mwyn myfyrio ar y prif heriau a thrafod blaenoriaethau allweddol ar gyfer y sector.

Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi tair her allweddol sy'n wynebu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru:

1. Heriau Systemig
2. Heriau'r Gweithlu

3. Iechyd y Boblogaeth

Yn olaf, mae'n myfyrio ar y blaenoriaethau ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol, fel y'u trafodwyd gan yr arweinwyr yn y system gofal iechyd.

Heriau Systemig

Mae'r system gofal iechyd yn dibynnu ar gydweithio rhwng nifer o sefydliadau, gyda sawl darn o ddeddfwriaeth yn ceisio nodi egwyddorion ar gyfer system sydd wedi'i chysylltu'n well. Mae'r adran hon yn ystyried rhai o'r pethau sy'n atal y system gofal iechyd rhag gweithredu'n hwylus.

1. Arferion Gwaith
2. Strwythurau Llywodraethu ac Ariannu
3. Ôl-groniad

Arferion Gwaith: Mae sefydliadau sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol (e.e. sefydliadau yn y sector gwirfoddol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd) yn aml yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol iawn. Mae hyn yn aml yn golygu bod y rhai sy'n ymdrechu i gyflawni newid o fewn gofal iechyd yn treulio llawer o amser yn ceisio sicrhau ymrwymiad gan sefydliadau eraill (Bebb a Bryer, 2020). Er bod y rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu yn enghraifft dda o sut y gwnaeth yr ymateb i COVID-19 hwyluso prosesau cydweithio da (Archwilio Cymru, 2021), mae llesgedd hirdymor o fewn y system yn bygwth y rhagolygon am fwy o gydweithio yn y dyfodol.

Strwythurau Llywodraethu ac Ariannu: Daeth adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar ansawdd gofal iechyd yn y DU (OECD, 2016) i'r casgliad bod angen i Gymru wella ansawdd gofal iechyd a bod yn fwy atebol am wneud hynny. Ystyrir bod ansawdd strwythurau llywodraethu o lefel ward i lefel bwrdd yn anghyson, yn wael a bod lle i'w gwella ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu deddfwriaeth i fynd i'r afael â [hyn](#), a ddaw i rym yng Ngwanwyn 2023.

Yn ogystal, nododd y rhai y gwnaethom gyfweld â nhw fod newidiadau mynych mewn arweinyddiaeth byrddau iechyd. Mae arweinwyr newydd, yn aml o'r tu allan i Gymru, sy'n

dechrau swyddi am gyfnodau byr yn unig yn lleihau morâl staff.

Mae'r cylch cynllunio tair blynedd sy'n rheoli cyllid y GIG yng Nghymru yn golygu bod sefydliadau'n teimlo bod angen sicrhau canlyniadau o fewn yr amserlen honno, ar draul cynllunio hirdymor.

Bydd angen camau gweithredu beiddgar a phendant ym mhob rhan o GIG Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad.

Ôl-groniad: Bydd angen camau gweithredu beiddgar a phendant ym mhob rhan o GIG Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad yn y ddarpariaeth gofal wrth i arweinwyr geisio sbarduno newid o fewn y system. Mae un strategaeth, a gefnogir gan Gomisiwn Bevan (2021), yn argymhell ailgyfeirio cleifion allanol a gofal dilynol, drwy ddefnyddio technoleg ddigidol hawdd ei defnyddio yn lle apwyntiadau rheolaidd traddodiadol. Mae'n bosibl y bydd yr ôl-groniad yn cael effaith eilaidd ar y sector gofal cymdeithasol gan ei fod yn cael ei ddefnyddio i leddfu'r galw ar y GIG, er enghraifft i gefnogi'r rhai sy'n dioddef o Covid hir. Fodd bynnag, gallai materion yn ymwneud â chyllid, tâl a lludded effeithio ar allu'r sector i ymdopi'n ddigonol â'r galw ychwanegol.



Heriau'r Gweithlu

Heriau'r gweithlu oedd un o'r blaenoriaethau a nodwyd amlaf yn ystod yr ymchwil a'r cyfweiliadau. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar dri maes allweddol o fewn y maes hwn:

1. Recriwtio a Chadw

2. Llesiant
3. Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Recriwtio a Chadw: Mae prinder staff yn rhwystyr allweddol i gynyddu capasiti'r GIG. Mae llawer iawn o swyddi gwag, ond mae deall y gyfradd swyddi gwag a'r angen dilynol i recriwtio yn anodd. Nid yw GIG Cymru yn casglu'r wybodaeth hon, a gaiff ei chasglu yn Lloegr, a chredir ei bod yn effeithio ar ansawdd prosesau cynllunio'r gweithlu. Er bod nifer y meddygon teulu wedi cynyddu, nid yw wedi cyrraedd y lefel sydd ei hangen i gynnal GIG Cymru o hyd.

Mae cadw staff presennol yn broblem arall, yn rhannol oherwydd llesiant gwael a newidiadau diweddar i gynlluniau pensiwn. Ynghyd â materion recriwtio o'r fath, mae hyn yn golygu bod y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn ei chael hi'n anodd cynnal ei lefelau staffio presennol, heb sôn am eu cynyddu. Ym maes gofal cymdeithasol, gall lefelau cyflog isel a chyffredinrwydd contractau dim oriau wneud rolau eraill yn fwy deniadol i staff; boed hynny mewn rhannau eraill o'r sector iechyd a gofal, neu mewn sectorau eraill, megis manwerthu.

Mae'r blinder a deimlir gan staff y GIG a staff gofal cymdeithasol yn bygwth gallu'r GIG a gofal cymdeithasol i weithredu i bob pwrpas.

Llesiant: Mae'r blinder a deimlir gan staff y GIG a staff gofal cymdeithasol yn bygwth gallu'r GIG a gofal cymdeithasol i weithredu i bob pwrpas, gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn cael sylw arbennig oherwydd lefelau "lluadded" ymhlith ei staff. Adroddwyd am ymyriadau i gefnogi llesiant meddyliol ac emosïynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig, ond nid yw effaith y rhain yn hysbys eto (Prifysgol Abertawe, 2021). Mae argaeledd cyllid hefyd yn codi cwestiynau am ba mor gynaliadwy yw'r mentrau hyn.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth: Mae'r adroddiad canol cyfnod ar Gronfa Drawsnewid 'Cymru Iachach' (Bebb a Bryer, 2020) yn tynnu

sylw at ddiffyg sgiliau rheoli prosiectau a rheoli newid o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol. Ategwyd yr angen am sgiliau o'r fath gan yr adroddiad ar Astudiaeth Arloesi a Thrawsnewid GIG Cymru (Prifysgol Abertawe, 2021), gan bwysleisio y bydd dull strategol o ddatblygu proffesiynol yn cynyddu'r potensial ar gyfer arloesi hirdymor.

Iechyd y Boblogaeth

Mae iechyd poblogaeth Cymru yn parhau i olygu bod y system iechyd a gofal yn wynebu galwadau penodol. Mae'r adran hon yn crynhoi'n fyr dair blaenoriaeth allweddol o ran iechyd y boblogaeth.

1. Anghydraddoldebau iechyd
2. Iechyd Meddwl sy'n Dirywio
3. Cydafiechedd

Anghydraddoldebau iechyd: Mae COVID-19 wedi gwaethygu anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru, a gwelwyd effaith anghymesur ar bobl hŷn a grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

Iechyd Meddwl sy'n Dirywio: Gellir gweld iechyd meddwl yn dirywio mewn grwpiau amrywiol, gan gynnwys pobl ifanc (5-19 oed) a phobl hŷn, ac mae'r broblem hon wedi gwaethygu yn sgil effaith COVID-19. Felly, mae angen buddsoddi mwy mewn iechyd meddwl: Ymrwymodd Llywodraeth Cymru yn ei Rhaglen Lywodraethu i flaenoriaethu a gwella'r ddarpariaeth iechyd meddwl.

Cydafiechedd: Mae nifer absoliwt y bobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor lluosog (cydafiechedd) yn cynyddu. Mae angen defnyddio dull cyfannol a ddarperir gan dimau amlddisgyblaethol i ymdrin â chydafiechedd, ond y ffordd orau o leddfu'r pwysau hwn ar y system gofal iechyd yw drwy ddulliau atal.




Blaenoriaethau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Yn seiliedig ar yr ymchwil ddesg a'r cyfweiliadau, nodwyd deg blaenoriaeth ar gyfer system iechyd a gofal cymdeithasol Cymru:

1. Recriwtio, hyfforddi, cefnogi a datblygu'r gweithlu cywir
2. Gwella prosesau cynllunio'r gweithlu drwy gasglu a dadansoddi data'n well
3. Gwella'r broses o recriwtio a chadw'r gweithlu ym maes gofal cymdeithasol

7. Gwella prosesau monitro ac ymyriadau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd
8. Gwella dulliau i'r rhai sy'n aros am driniaeth er mwyn lleihau niwed a straen ar ofal cymdeithasol
9. Cefnogi arweinyddiaeth ar lefel system a rhoi prosesau rheoli ar waith er mwyn mynd ar drywydd newidiadau trawsnewidiol
10. Ail-gydbwyso cymhellion i ysgogi gwelliannau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.



4. Cynnal hyblygrwydd prosesau penderfynu a wnaed yn bosibl yn ystod y pandemig
5. Meithrin cadernid er mwyn lliniaru effaith clefydau pandemig yn y dyfodol
6. Gwella'r broses o rannu arferion gorau ar gyfer gweithio integredig llwyddiannus a modelau gofal sy'n lleihau'r galw ar y sector aciwt

Daeth arweinwyr o sefydliadau allweddol yn system iechyd a gofal cymdeithasol Cymru

ynghyd mewn 'uwchgynhadledd i arweinwyr'. Roeddent yn cydnabod yr heriau a nodwyd ac yn cytuno â nhw. Pan ofynnwyd pam mai ychydig o gynnydd a fu, er bod y rhain yn faterion hirsefydlog, disgrifiodd y grŵp rwystrau amrywiol wrth fynd i'r afael â'r materion hyn, gan

gynnwys brys, cymhellion, buddsoddi, capasiti, dealltwriaeth a phenderfyniadau gwleidyddol dewr.

Fel rhan o'r uwchgynhadledd, gofynnwyd i'r arweinwyr ddewis y tair blaenoriaeth, o'r rhestr o ddeg, a fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i iechyd a gofal yng Nghymru.

Yn ôl yr arweinwyr hyn, y tair blaenoriaeth a fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf yw:

- **Cefnogi arweinyddiaeth a sefydlu prosesau rheoli ar gyfer newid trawsnewidiol**
- **Recriwtio, hyfforddi, cefnogi a datblygu'r gweithlu cywir**
- **Cynnal hyblygrwydd prosesau penderfynu a ddatblygwyd yn ystod y pandemig**

Yna gofynnwyd i'r arweinwyr raddio pob un o'r tair blaenoriaeth hyn o ran cefnogaeth o fewn y system gofal iechyd, gwerth cyhoeddus a chapasiti gweithredol. Yn nodedig, perfformiodd y tair blaenoriaeth yn wael o ran y metrig capasiti gweithredol.

Cefnogi Arweinyddiaeth: Y flaenoriaeth hon gafodd y sgôr isaf o'r tair o ran capasiti gweithredol, yn ogystal â lefel y gefnogaeth o fewn y system gofal iechyd. Cwestiynodd yr arweinwyr a yw newid yn rhan o rôl digon o bobl a gwnaethant drafod y casgliad o fentrau cymhleth y gellid eu symleiddio neu eu diddymu. Gwnaethant nodi y gallai canolbwyntio ar y dinesydd helpu i alluogi newid o fewn y system ac ennyn diddordeb y cyhoedd.

Datblygu'r Gweithlu: Y flaenoriaeth hon gafodd y sgôr uchaf o ran budd y cyhoedd a gwelwyd hefyd fod cefnogaeth gref iddi o fewn y system gofal iechyd. Nododd yr arweinwyr fod diffyg buddsoddiad mewn staff, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â rôl 'eilaidd' hyfforddiant, er ei fod mor bwysig i ansawdd y gofal, yn arwain at staff nad ydynt wedi'u paratoi'n ddigonol a lefelau llesiant gwael. Er

bod cyfle enfawr i newid y system wedi codi yn sgil COVID-19, roedd pryder a fyddai blinder meddyliol staff yn llesteirio hyn.



Cynnal Hyblygrwydd: Y flaenoriaeth hon gafodd y sgôr uchaf ar gyfer capasiti gweithredol a chefnogaeth o fewn y system gofal iechyd ond ystyriwyd bod ganddi lai o werth cyhoeddus na'r ddwy brif flaenoriaeth arall. Trafododd yr arweinwyr y gofynion i lawer o bobl gymeradwyo newidiadau polisi, ac nid ystyriwyd bod hyn yn broses effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Gwnaethant hefyd ystyried rôl diwyllianau yn y gweithle a'r angen i osgoi cysyniadu methiannau fel y 'ffordd anghywir', o ystyried natur heriol y pandemig.

Cyfeirnodau

Archwilio Cymru. (2021). **Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru: Trosolwg o'r Cynnydd Hyd Yma**

Bebb, H. a Bryer, N. (2020). **Gwerthusiad Canol Cyfnod o Gronfa Drawsnewid 'Cymru Iachach'**. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Comisiwn Bevan. (2021). **Doing Things Differently: Tackling the Backlog in the Aftermath of COVID-19.**

OECD. (2016). **OECD Reviews of Health Care Quality: United Kingdom 2016: Raising Standards.**

Prifysgol Abertawe. (2021). **GIG Cymru Astudiaeth Arloesi a Thrawsnewid COVID-19: Crynodeb o Themâu sy'n Dod i'r Amlwg**



Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan, sy'n cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol

a Llywodraeth Cymru, yn rhan o Brifysgol Caerdydd ac yn aelod o What Works Network y Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Amy Lloyd

+44 (0)29 2087 5345

amy.lloyd@wcpp.org.uk

Wales Centre for Public Policy

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ



www.wcpp.org.uk



029 2087 5345



info@wcpp.org.uk



@WCfPP



Llywodraeth Cymru
Welsh Government